
# Iesu'n tawelu'r storm

www.lambsongs.co.nz   Gan Jill Kemp (Cyf. Susan Williams)   Lluniau: Richard Gunther





**Pan fydd 'storm' – amseroedd anodd – yn taro ein bywydau gall Iesu dawelu'r storm a rhoi heddwch i ni. Mae o yna gyda ni i'n cadw'n ddiogel. Gall Iesu dawelu storm.**



**Un noson braf neidiodd Iesu a'i ffrindiau i mewn i gwch a rhwyfo ar draws y llyn.**



**Roedd Iesu wedi bod yn brysur trwy'r dydd yn dysgu pobl am Dduw ac roedd wedi blino'n ofnadwy. Gorweddodd i lawr a syrthiodd i gysgu.**



**Cododd y gwynt ac aeth y tonnau'n fwy ac yn fwy. Roedd y cwch bach yn cael ei luchio i bobman. Roedd ar ffrindiau Iesu ofn.**




**"Iesu, deffra. Helpa ni! Mae'r tonnau'n anferthol ac mi ydyn ni mewn perygl mawr," gwaeddodd ffrindiau Iesu.**



**Safodd Iesu yn y cwch. "Wynt a thonnau byddwch yn dawel!" gorchmynnodd. Ac ar amrantiad tawelodd y gwynt a'r tonnau!**



**Roedd ffrindiau Iesu wedi eu syfrdanu. "Pwy ydy'r dyn yma? Mae o'n gallu gofyn hyd yn oed i storm stopio!" medden nhw mewn syndod.**



**Roedden nhw'n gwybod eu bod yn ddiogel gyda Iesu. Mae'r Beibl yn dweud, "Pan mae arnaf ofn fe wnaf i ymddiried ynot ti."**